# Crynodeb o Weithdai

# Sir y Fflint Ifanc

# 04/02/2025

**Cyflwyniad Gwasanaeth Comisiynydd Plant Cymru i Ysgolion Uwchradd**

Bu i Swyddogion Cyfranogiad o Dîm Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru arwain gwasanaeth i ysgolion uwchradd ar CCUHP ac adnoddau i gefnogi ysgolion. Mae'n bosibl i'r adnodd gael ei arwain gan bobl ifanc i hyrwyddo'r wybodaeth ymysg eu cyfoedion. Mae dolenni i fideos defnyddiol wedi'u cynnwys.

**Cam Gweithredu:** Gwahodd pobl ifanc i arwain y gwasanaeth yn eu hysgolion eu hunain. Pobl ifanc a staff i archwilio materion misol, adnoddau a gweithgareddau eraill CCUHP mewn lleoliadau ysgol cyn y digwyddiad adborth yn ystod tymor yr haf (dyddiad a lleoliad i'w gyhoeddi).

**Gweithdy Perthyn: Cenhadaeth Ddinesig – Prifysgol Wrecsam**

Bu i staff Cenhadaeth Ddinesig o Brifysgol Wrecsam wahodd Sir y Fflint Ifanc i archwilio'r syniad o 'Berthyn'. Yn gyntaf, fel grwpiau, bu iddynt lunio beth mae perthyn yn ei olygu iddyn nhw, gan drafod sut y mae'n teimlo i fod yn perthyn ac i beidio â bod yn perthyn, gan roi enghreifftiau lle bo'n briodol.

Roedd y themâu allweddol a gafodd eu rhannu o'r grwpiau adborth yn cynnwys bod mewn man diogel, teimlo ei fod yn ddiogel i fod yn greadigol ac yn wahanol a bod cyfathrebu yn bwysig, eisiau cyfathrebu ag eraill a phobl eraill yn cyfathrebu â chi mewn modd priodol.

Yn ail, gwahoddwyd y mynychwyr i gwblhau cymylau geiriau ar y syniad o Berthyn o'n pennau, ein calonnau a'n dwylo i ymateb i 'Beth mae Perthyn yn ei olygu i mi'?

Gweler crynodeb o'r cymylau Perthyn isod:

| **Cymylau Geiriau Perthyn** | |
|---|---|
| Adref<br>Gyda'n gilydd x 4<br>Chwaraeon<br>Cael ein dathlu x 3<br>Rhyddid<br>Cael ein gwerthfawrogi x 5<br>Cyfeillgarwch x 5<br>Dihangfa (ffrindiau/clybiau/allgyrsiol)<br>Fy enaid a fy niddordebau<br>Rhyddid i siarad<br>Cael cartref<br>Cymuned ffyniannus<br>Wedi ein cysylltu x 4<br>Cymuned garedig x 2<br>Pobl yn dathlu<br>Diogel x 6<br>Teimlo'n ddiogel gyda theulu | Rhywle lle nad ydych yn cael eich beirniadu x 3<br>Rhywbeth sy'n dod â hapusrwydd i chi<br>Rhywle yr ydych yn teimlo cariad ac yn cael eich derbyn<br>Atgofion<br>Rhywle sy'n rhoi cysur<br>Hanes<br>Ysbrydoledig<br>Diwylliant<br>Dathlu traddodiadau<br>Iaith<br>Cyfathrebu<br>Hunaniaeth<br>Cael eich gwerthfawrogi heb unrhyw feirniadaeth<br>Teimlo croeso a'ch bod yn cael eich derbyn |

Rhai dyfyniadau o drafodaeth y cwmwl geiriau:

'y mwyaf yr ydym yn perthyn i rywbeth – y gorau fydd ein dyfodol'

'mae teimlo cariad ac yn ddiogel yn golygu ein bod yn teimlo fel ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, os nad ydym yn cael ein gwerthfawrogi, sut ydym yn teimlo ein bod yn perthyn?'

'mae perthyn yn golygu teimlo ein bod wedi ein cysylltu' 2

Cafodd yr elusen WeMindTheGap eu hyrwyddo yn ogystal â'u rôl o ran cefnogi oedolion ifanc i ddod o hyd i gyfeiriad a magu hyder. Rhannwyd cardiau post i roi adborth ar Y Cwestiwn Mawr sy'n cael ei ofyn i oedolion ifanc yn Sir y Fflint rŵan. Rhannodd Nina rywfaint am '2025 y Flwyddyn o Berthyn' a gwahodd Sir y Fflint Ifanc i gymryd rhan mewn prosiect peilot gan gynnal prosiect cymunedol gyda'r cronfeydd sydd ar gael o £225. Cafodd cardiau post a oedd yn cynnwys syniadau eu llenwi fel bod y tîm yn gallu eu hadolygu a rhoi adborth arnynt. Y thema ar gyfer Bob Talks eleni yw Perthyn. Bydd Sir y Fflint Ifanc yn cael gwahoddiad i baratoi cyflwyniadau ar y thema Perthyn i'w rhannu â Chyngor Sir y Fflint. Bydd rhai grwpiau yn cael gwahoddiad i gyflwyno yn y digwyddiad Bob Talks ym Mhrifysgol Wrecsam ym mis Ebrill.

**Camau gweithredu:** Byddwn yn ailymweld â'r pwnc prosiect £225 yn yr Hyfforddiant Siarad Cyhoeddus ar 20 Chwefror. Pwrpas yr Hyfforddiant Siarad Cyhoeddus ar 20 Chwefror yw paratoi ar gyfer y Bob Talks sy'n cael ei gynnal ym mis Ebrill ar y thema Perthyn.

**Sesiwn Dylunio Logo**

Bu i staff a dysgwyr o Ysgol Maes Hyfryd arwain y Sesiwn Dylunio Logo gyntaf i Sir y Fflint Ifanc, ar ôl sesiwn ioga yn yr haul. Myfyriwyd ar y themâu CCUHP a Sir y Fflint Ifanc a nodwyd ac yna cynhaliwyd adegau creadigol. Bu i Sir y Fflint Ifanc bersonoli Logo Cyngor Sir y Fflint, wedi'i rannu'n bedair rhan. Adolygwyd y logo a gafodd ei ddrafftio gan nodi'r holl syniadau.

**Camau gweithredu:** Bydd Ysgol Maes Hyfryd yn ail-ddrafftio'r logo ac yn ei rannu yn y cyfarfod ar 28 Mawrth.

**Mapio Cymunedol: Datblygu Chwaraeon**

Bu i staff Datblygu Chwaraeon o Gwella gyflwyno Dull yn Seiliedig ar Leoedd i Ddatblygu Cymunedol, lle gall y materion sy'n codi fod yn anodd ei datrys. Mae hyn yn eithaf cyffredin pan fyddwn yn edrych ar unigolion yn bod yn gorfforol egnïol, gyda haenau o ddylanwadau fel yr amlygwyd o'r dull system gyfan. Cafodd gweithgarwch corfforol gydol oes ei rannu i egluro hyn. Gall nodi asedau yn y gymuned i helpu unigolion i fod yn gorfforol egnïol hefyd helpu i nodi pa gefnogaeth sydd ar goll. Rhannwyd enghraifft o grŵp Mapio Cymunedol Treffynnon. Yna cynhaliodd y grwpiau yr ymarferiad hwn. Mae nodiadau cryno o'r gweithgaredd i'w gweld isod:

| **Asedau Cymunedol a Nodwyd** | **Beth sydd ar goll?** |
|---|---|
| Campfa awyr agored – Parc Gwepra<br>Canolfannau hamdden<br>Traciau rhedeg<br>Traciau beics<br>Llwybrau cerdded<br>Cyrtiau tennis<br>Glambasadors – hyrwyddo genethod i fod yn egnïol<br>Clybiau chwaraeon mewn ysgolion<br>Gwarchodfeydd natur<br>Canolfannau cymunedol<br>Parciau | Mwy o gampfeydd i ferched yn unig<br>Mwy o gampfeydd awyr agored sy'n rhad ac am ddim<br>Cynnal a chadw offer<br>Addysg ar yr agwedd tuag at chwaraeon<br>Newid agwedd i annog merched yn benodol i wneud ymarfer corff<br>Clybiau ieuenctid<br>Cymorth Mislif – Prosiect Iechyd Mislifol a Glambassadors ym mhob ysgol<br>Sut i ganfod beth sydd ymlaen – ble i fynd |

| | |
|---|---|
| Cae criced<br>Cae pêl-droed<br>Campfa Glannau Dyfrdwy<br>Cricket pitch<br>Football field<br>Deeside gym | |

**Cam Gweithredu:** Bydd yr adborth yn bwydo i mewn i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gymunedau. Bydd Sir y Fflint Ifanc yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau mapio cymunedol. Rhywbeth y mae angen i bobl ifanc ei rannu yw'r ffaith nad yw bod yn gorfforol egnïol yn ymwneud yn benodol â chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.